# 7a Cardiau Senario Hiliaeth

Mae Ibraim yn fachgen du 13 oed sydd wedi symud o Tunisia gyda'i rieni i ysgol yng Nghymru. Mae Saesneg yn ail iaith iddo ac felly mae'n rhaid iddo gael cymorth ychwanegol gan adran anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol. Mae wedi ei chael hi'n anodd gwneud ffrindiau oherwydd dy broblem iaith ac mae wedi cael ei alw'n enwau gan ddisgyblon eraill. Mae'n fachgen mawr am ei oed ac yn amlwg ymhlith ei gyfoedion, a bydd yn mynd yn rhwystredig oherwydd y problemau cyfathrebu. Gall y rhwystredigaeth yma olygu ei fod yn colli ei dymer, sy'n golygu ei fod yn mynd i drafferth yn yr ysgol. Mae'n teimlo'n ofnus ac yn unig ar adegau a chaiff ei adael allan fwyfwy gan ei gyfoedion. Mae'n teimlo nad yw'n ffitio yn yr ysgol gan nad oes llawer o ddisgyblion yno sydd naill ai'n ddu neu ddim wedi eu geni yng Nghymru. Clywodd grŵp o fechgyn yn gwneud hwyl am ben ei acen yn yr ystafelloedd newid ac yn chwerthin am ben ei daldra, dywedodd un bachgen ei fod yn drewi. Mae'n teimlo fel rhedeg i ffwrdd.



HEDDLU POLICE

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

## 7a Cardiau Senario Hiliaeth

Mae Svetlana yn ferch 15 oed o Rwmania a symudodd i fyw yng Nghymru yn ddiweddar gyda'i theulu. Mae ei thad yn feddyg ac mae ganddo ddisgwyliadau mawr gan ei ferch. Roedd hi'n nerfus iawn ynglŷn â dechrau yn ei hysgol newydd gan fod y pennaeth wedi dweud mai hi oedd y disgybl cyntaf iddynt ei gael o Ddwyrain Ewrop. Gwnaeth ei nerfusrwydd iddi ymddangos fel na bai am fod gyda'r disgyblion eraill. Dechreuodd un ferch si ei bod yn Sipsi, a'i bod yn byw mewn carafan ar dir gwastraff wrth y gamlas lleol. Wedi 5 wythnos nid oes neb yn siarad a hi oni bai i wneud rhyw sylw cas am ei chefndir diwylliannol (yn ôl pob sôn). Mae hi'n pryderu'n fawr am yr ysgol ac mae hyn yn cael effaith ar ei marciau.



## 7a Cardiau Senario Hiliaeth

Mae Calvin yn fachgen 14 oed sydd wedi symud ysgol o fewn Abertawe, lle mae'n byw. Mae ei fam yn wyn a'i dad o darddiad Asiaidd. Yn ddiweddar mae wedi clywed sylwadau amhleserus yn cael eu gwneud am ei dad gan rai o'r bechgyn hŷn yn dilyn noson rieni ddiweddar. Roedd y sylwadau hiliol wedi ei frifo. Ers y noson rieni mae wedi profi sylwadau hiliol amdano, rhai'n ei alw'n derfysgwr. Maent yn gwneud hwyl am ei ben gyda disgyblion eraill sydd, er fod Calvin yn teimlo eu bod yn anghyfforddus gyda hyn, ddim yn ei gefnogi. Mae ei ffrindiau wedi dweud wrtho am eu hanwybyddu. Yn ddiweddar cafodd ei ddilyn adref o'r ysgol gan griw o fechgyn, buont yn aros tu allan i'w dŷ yn gwneud hwyl am ei ben ac am ben ei deulu. Pan ddaeth ei dad allan dywedodd y bechgyn bethau atgas wrtho a rhedeg i ffwrdd. Mae Calvin yn teimlo'n fwyfwy anhapus ac anniogel yn yr ysgol ac yn ei gymuned.

Yn ddiweddar mae wedi derbyn negeseuon testun câs ac mae sylwadau anfoesgar wedi cael eu postio ar ei dudalen Facebook. Roedd rhai o'r negeseuon yn fygythiol eu natur. Bellach mae Calvin wedi bod yn teimlo'n anhapus ac anniogel tra yn yr ysgol ac yn ei gymuned.



HEDDLU POLICE
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government